

TAFLEN WYBODAETH DYLEDION YNNI

DYDYCH CHI DDIM AR EICH PEN EICH HUN – MAE HELP AR GAEL

Mae dyled ynni'n broblem ddifrifol i filiynau o gartrefi ar draws y DU. Mae'n bwysig deall y gall unrhyw un fynd i ddyled ynni. Er y gall dyled fod yn frawychus, mae cymorth ar gael i chi.



BETH DYLECH EI WNEUD OS YDYCH CHI'N MEDDWL EICH BOD MEWN DYLED YNNI?

- 1 Mynnwch ddarllen iad mesurydd diweddar i sicrhau bod eich cyfrif wedi'i bilio'n gywir ac yn gyfredol.
- 2 Cysylltwch â'ch cyflenwr ac esboniwch eich sefyllfa – byddant yn rhoi gwybod i chi pa gymorth y gallant ei ddarparu ac yn eich helpu i sefydlu cynllun talu.
- 3 Gwiriwch i weld a ydych yn gymwys ar gyfer Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth eich cyflenwr:
<https://www.thepsr.co.uk/>
- 4 Gofynnwch i'ch cyflenwr a oes ffordd fwy priodol i chi dalu - gall cyflenwyr gynnig amrywiaeth o ddulliau talu a allai fod yn addas ar gyfer eich anghenion chi.

SUT I DDARLLEN EICH MESURYDDION NWWY A THRYDAN

<https://tinyurl.com/5endnfas>

YDYCH CHI'N POENI AM FILIAU YNNI?

Mynnwch fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael:
<https://tinyurl.com/25samfb7>

OS YW'R SEFYLLFA'N MYND YN DRECH NA CHI AC MAE ANGEN I CHI SIARAD Â RHYWUN:

- Y Samariaid: 116 123
- Mind: 0300 123 3393
- Campaign Against Living Miserably: 0800 585858

DOD O HYD I GYMORTH ARIANNOL

■ Os ydych chi'n cael trafferth gyda dyledion, gall fod yn anodd gwybod lle i gael cymorth y gallwch ymddiried ynddo. Mae gan wefan Money Helper restr o wasanaethau cyngor ar ddyled am ddim a allai eich helpu chi. <https://tinyurl.com/bddh3cp8>

■ Os ydych ar ei hôl hi gyda'ch biliau chi, efallai y gallwch gael help gan ymddiriedolaeth elusennol neu'ch cwmni ynni i'ch helpu i dalu'r ddyled. <https://tinyurl.com/yzw47ub8>

■ Efallai y byddwch hefyd am gofrestru gyda Lightning Reach, gwasanaeth a all eich hysbysu am grantiau posibl sydd ar gael, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau. <https://tinyurl.com/4m97hpt2>

■ Cofiwch wirio a oes gennych hawl i unrhyw fuddaliadau ychwanegol - mae miliynau o bunnoedd yn mynd heb eu hawlio bob blwyddyn, felly mae'n werth cymryd 10 munud i wirio. <https://www.gov.uk/benefits-calculators>

BETH YW FY HAWLIAU FEL DEFNYDDIWR YNNI?



BETH OS NA ALLA I Fforddio fy MILIAU?

■ Siaradwch â'ch cyflenwr cyn gynted ag y gallwch, a dywedwch wrthyn nhw eich bod chi'n cael trafferthion

■ Gofynnwch am drefniant talu fforddiadwy

■ Gofynnwch ba fath o ddull talu a allai weithio i chi

I gael mwy o wybodaeth: <https://tinyurl.com/ms3nmkcz>



PA REOLAU Y MAE'N RHAIID I FY NGHYFLENWR EU DILYN?

■ Dylen nhw gysylltu â chi os byddant yn sylwi eich bod yn mynd ar ei hôl hi - gall hyn fod trwy e-bost, llythyr, neu dros y ffôn

■ Dylen nhw geisio deall eich amgylchiadau

■ Rhaid iddyn nhw sefydlu unrhyw gynlluniau ad-dalu yn seiliedig ar yr hyn y gallwch ei fforddio

■ Rhaid iddyn nhw sicrhau eich bod chi'n deall y trefniant

■ Dylen nhw gysylltu â chi os byddwch chi'n mynd ar ei hôl hi eto

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Amodau Trwydded Safonol ar gyfer cyflenwyr ynni. <https://www.ofgem.gov.uk/publications/introduction-supply-licences>



RHEOLAU NEWYDD AM FESURYDDION RHAGDALU

Mae rheolau Ofgem yn diogelu cwsmeriaid sydd mewn dyled os yw cyflenwr eisiau gosod mesurydd rhagdalau. Os ydych chi neu rywun yn eich cartref yn:

■ Dibynnu ar ynni ar gyfer offer meddygol

■ Dros 75 oed neu o dan bump oed

■ Delio â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol

■ Wynebu unrhyw anawsterau eraill yn y cartref

Dywedwch wrth eich cyflenwr a bydd yn gwirio a yw mesurydd rhagdalau yn addas i chi. I gael mwy o wybodaeth: <https://tinyurl.com/2h8asubz>